Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

# TROSOLWG / CRYNODEB O'N

Ysgol Gymunedol Trimsaran
Gwnawn Ein Gorau Glas

# Cynllun Datblygu Ysgol :

# 2023-2026

*I’w gyhoeddi ar wefan yr ysgol*

# Ein Cynllun Datblygu Ysgol

Bob blwyddyn academaidd, rydym yn creu ein Cynllun Datblygu Ysgol (CDY). Mae hwn yn gynllun sy'n nodi'r meysydd y byddwn yn gweithio arnynt fel ysgol dros y flwyddyn academaidd.

O fis Medi 2022, rhaid i bob corff llywodraethu ystyried y blaenoriaethau cenedlaethol canlynol wrth osod eu blaenoriaethau gwella:

- ✓ gwella cynnydd disgyblion drwy sicrhau bod eu dysgu'n cael ei gefnogi gan amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a phrofiad
- ✓ lleihau effaith tlodi ar gynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr

Mae ein CDY wedi ei rannu i flaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod o ystod o ffynonellau gan gynnwys hunan-werthuso; dadansoddi data; adborth o ffynonellau allanol a monitro mewnol. Ysgrifennwyd y cynllun mewn cydweithrediad â staff, llywodraethwyr, plant a rhieni. Ar gyfer pob blaenoriaeth, cynllunnir nifer o gamau gweithredu trwy gydol y flwyddyn. Mae’n ddogfen gweithredol, ac er na fydd newidiadau mawr i’r cynllun, wrth i ni roi’r plant wrth galon popeth a wnawn, efallai y bydd newidiadau’n digwydd i sicrhau bod y cynllun yn ymateb i anghenion ein disgyblion.

Er mwyn helpu i gynyddu hyder yn yr ysgol a'i chynllun datblygu ac ymroddiad iddynt, mae’r ysgol yn cyhoeddi'r copi cryno hon ar ein gwefan. Mae’r crynodeb hwn yn cynnwys :

1. crynodeb lefel uchel o hunanwerthusiad yr ysgol, gan gyfleu prif gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu;
2. blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer y flwyddyn bresennol, camau gweithredu a gynlluniwyd i gyflawni'r blaenoriaethau hynny; a cherrig milltir perthnasol
   *gan gynnwys cymorth allanol a gaiff yr ysgol i'w helpu i gyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer gwella yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol (gan gynnwys cymorth a gaiff ei roi neu ei froceru gan gonsortia rhanbarthol)
3. adroddiad ar y cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r flwyddyn flaenorol

Yn y modd hwn, bydd rhieni, gofalwyr a dysgwyr yn gallu cael mynediad at wybodaeth safonol sydd ar gael i bob ysgol. Bydd hyn yn cefnogi tryloywder drwy roi gwybodaeth reolaidd a chyson i rieni a gofalwyr a'r gymuned ehangach am yr ysgol a'i datblygiad.

*Mae’r uchod yn cyd-fynd â’r disgwyliadau a nodir yn y Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd

Adran 1 : Crynodeb lefel uchel o hunanwerthusiad yr ysgol, gan gyfleu prif gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu

| 3 maes trosfwaol ar gyfer hunanwerthuso : | **Beth ydym ni'n falch ohono yma yn Ysgol Trimsaran**<br>Pethau mae'r ysgol yn eu gwneud yn dda. Nodweddion a/neu weithgareddau sy'n unigryw/arloesol i'r ysgol. Agweddau rydyn ni eisiau eu rhannu a'u dathlu. | **Beth allwn ni ei wneud yn well yma yn Ysgol Trimsaran**<br>Meysydd lle gallai'r ysgol fod yn gweithio'n llawer mwy effeithiol, neu bethau y gallai'r ysgol fod yn eu gwneud yn well. |
|---|---|---|
| **Gweledigaeth ac arweinyddiaeth** | • Mae gan yr uwch reolwyr weledigaeth gadarn a phwrpasol iawn i ysgogi gwelliant yn narpariaeth yr ysgol. Mae eu gweledigaeth wedi'i rhannu'n bwrpasol gyda'r holl rhanddeiliaid perthnasol.<br>• Mae'r weledigaeth ar gyfer datblygu'r ysgol yn seiliedig ar fewnbwn ystod eang o bobl lle ystyriwyd eu barn yn ddoeth. Mae'r weledigaeth yn sicrhau bod cynnydd yn safonau pob disgybl, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd llai breintiedig ac yn rhoi sylw gwirioneddol i'r blaenoriaethau cenedlaethol.<br>• Mae'r ysgol yn cael ei rheoli a'i harwain gan uwch dîm arweinyddiaeth proffesiynol a chryf sy'n gosod llwybr datblygu pwrpasol ar gyfer yr ysgol. Maent yn gosod disgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain a phawb yn y sefydliad.<br>• Mae dyletswyddau wedi'u dosbarthu'n bwrpasol ar draws yr ysgol sy'n adlewyrchu ei chyd-destun.<br>• Mae'r corff llywodraethol yn rhagweithiol wrth ddod i adnabod yr ysgol ac mae'n cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cyfoethog i gasglu tystiolaeth uniongyrchol o'r ddarpariaeth. Maent yn dwyn y pennaeth a'r ysgol i gyfrif yn effeithiol am y gwasanaeth y mae'r ysgol yn ei ddarparu ac yn cyflawni eu holl dyletswyddau statudol yn effeithiol.<br>• Mae'r arweinwyr canol yn datblygu yn effeithiol o fewn eu rôl. Maen nhw yn datblygu'r cwricwlwm yn dda, mae angen parhau gyda'r arfer yma. | • Datblygu systemau i sicrhau bod cynorthwywyr addysgu yn rhan o'r broses rheoli perfformiad.<br>• Datblygu arferion sefydliadau sy'n dysgu ar draws yr ysgol. |
| **Cwricwlwm, dysgu ac addysgu** | • Mae'r holl staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac maent yn gwahaniaethu'n briodol i ddiwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae'r rhan fwyaf yn cefnogi eu hannibyniaeth yn dda gan annog disgyblion i ddewis yr her sy'n gweddu orau i'w gallu.<br>• Mae gan bron pob aelod o staff ddealltwriaeth gadarn o gefndir pob dysgwr ac maent yn ymwybodol o hyn wrth gynllunio'n bwrpasol i gefnogi cynnydd dysgwyr. | • Parhau i ddatblygu sgiliau cymhwysedd digidol y disgyblion a pharhau i fagu hyder staff o fewn llinyn pedwar y fframwaith cymhwysedd digidol.<br>• Datblygu cyfleoedd ysgrifennu estynedig ymhellach ar draws yr ysgol.<br>• Cysoni cyfleoedd rhifedd ar draws yr ysgol i adlewyrchu'r arfer dda sy'n bodoli.<br>• O fewn gwersi ffurfiol gwelwyd enghreifftiau da o iaith lafar gyda disgyblion ar draws yr ysgol, fodd bynnag, nid yw'r sgiliau'n cael eu hadlewyrchu mewn sefyllfaoedd anffurfiol.<br>• Mae angen gwella a chryfhau safonau darllen tua hanner y dysgwyr, hefyd mae angen gwella'r cariad tuag at y darllen. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda sgiliau cymdeithasol ac addysgol isel. Fodd bynnag, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cryf o'u man cychwyn dros amser yn eu sgiliau sylfaenol.<br>• Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu sgiliau hanfodol. Fodd bynnag, gallai'r ychydig o ddisgyblion wneud cynnydd cryfach o ran datrys problemau a sgiliau meddwl yn feirniadol.<br>• Cwricwlwm eang a phwrpasol sy'n ymgysylltu â bron pob disgybl.<br>• Mae profiadau dysgu dilys ac ymarferol yn cael eu datblygu sy'n sicrhau dyfnder yn y dysgu. | • Mae angen i lawer o ddisgyblion gwella eu dealltwriaeth o weithgareddau a goswyd iddyn nhw. |
| **Lles, tegwch a chynhwysiant:** | • Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gyson dda.<br>• Mae'r berthynas waith rhwng y staff a'r disgyblion yn effeithiol iawn.<br>• Mae'r berthynas rhwng y plant yn llwyddiannus, ac maent yn barod i gydweithio'n effeithiol a pharchus.<br>• Mae'r athrawon yn adnabod y plant yn dda ac yn llwyddo i addasu eu darpariaeth i ddiwallu anghenion bron pob disgybl.<br>• Mae llais y disgybl yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth yr ysgol, e.e. cynllunio'r cwricwlwm ac effaith y cynghorau ysgol. Mae'r ysgol yn rhagweithiol wrth weithio gydag asiantaethau allanol i ddiwallu anghenion y dysgwyr yn effeithiol.<br>• Mae'r staff yn deall cefndir pob plentyn ac maen nhw'n eu trin nhw gyda empathi a dealltwriaeth. Mae'r athrawon yn blaenweithgar gyda'r rhieni.<br>• Mae'r rhan fwyaf yn newid eu arddull cyfathrebu yn effeithiol i ymrwymo a ysbrydoli'r dysgwyr. | • Datblygu cyfleoedd pellach i ddisgyblion ar draws yr ysgol wneud dewisiadau annibynnol ar sut i gyflwyno gwybodaeth a'i dysgu. |

# Adran 2 : Blaenoriaethau Cynllun Datblygu Ysgol lefel uchel: 2023-2024

Blaenoriaeth 1 : **I barhau i ddatblygu ymhellach cwricwlwm awthentig sy'n seiliedig ar ddysgu ymholiadol, er mwyn hyrwyddo'r cynnydd gorau i bob dysgwr.**

Blaenoriaeth 2 : **Datblygu addysgeg mewn mathemateg er mwyn sicrhau defnydd cyson o ddulliau CPA ar draws yr ysgol i wella dealltwriaeth gysyniadol disgyblion.**

Blaenoriaeth 3 : **Parhau i wella dealltwriaeth y disgyblion hŷn a sgiliau darllen trefn uwch yn y ddwy iaith a'u mwynhad o ddarllen.**

Blaenoriaeth 4 : **Fel ffocws prosiect SSD, gwella'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion disgyblion sy'n agored i niwed drwy fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad dysgwyr.**

Blaenoriaeth 5 : **Cryfhau yn bellach y cynnydd cadarn diweddar o ran lefelau presenoldeb yr ysgol.**

## Section 2.1 Camau gweithredu a gynlluniwyd i gyflawni blaenoriaethau CDY a cherrig milltir perthnasol

| **Blaenoriaeth 1 : I barhau i ddatblygu ymhellach cwricwlwm awthentig sy'n seiliedig ar ddysgu ymholiadol, er mwyn hyrwyddo'r cynnydd gorau i bob dysgwr.** | **Blaenoriaeth 2 : Datblygu addysgeg mewn mathemateg er mwyn sicrhau defnydd cyson o ddulliau CPA ar draws yr ysgol i wella dealltwriaeth gysyniadol disgyblion.** |
|---|---|
| Gweledigaeth ac arweinyddiaeth / Cwricwlwn, Dysgu ac Addysgu / Lles, Tegwch a Chynhwysiant | Gweledigaeth ac arweinyddiaeth / Cwricwlwn, Dysgu ac Addysgu / Lles, Tegwch a Chynhwysiant |
| **Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud…**<br>• Trefnu cyfarfod gyda'r Partneriaeth Dysgu i gynllunio ymholiadau ar gyfer y tymor nesaf.<br>• Rhannu arfer dda gyda staff yr ysgol. HD (Ysgol Ffwrnes) i gyflwyno sut mae hi'n cynllunio cyfres o wersi sy'n arwain at wers lle mae'r dysgwyr yn cymhwyso'r holl sgiliau.<br>• Cyflwyno proffil mynediad newydd (o dan 5) i holl staff yr Ysgol.<br>• Cyflwyno proffil mynediad newydd ar gyfer hwyrddyfodiaid (B1-6) i holl staff yr Ysgol.<br>• Diwygio'r ffordd rydym yn defnyddio See-saw i gadw tystiolaeth<br>• Cynnal sesiwn hyfforddi ar yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl fel Ysgol – 'Beth yw cynnydd' wrth ganolbwyntio ar waith y dysgwr.<br>• Cynnal sesiwn hyfforddi ar 'egwyddorion cynnydd ac 'asedau dysgu'.<br>• Cynnal sesiwn hyfforddi ar yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl fel Ysgol – 'Dewis Rhydd'. – B1 a 2.<br>• Cam 2: Cynllun Gweithredu (Gweithgareddau a strategaethau i wneud i wella ddigwydd)<br>• Athrawon Camau 2 a 3 i gyfarfod ar y cyd i osod cwestiynau ar gyfer ymholiadau.<br>• Cynnal sesiwn hyfforddi ar yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl fel Ysgol – 'Cwestiynu Effeithiol - Lyn Sharratt'<br>• Monitro 'cwestiynu effeithiol'<br>• Cynnal cyfarfodydd cynnydd tymhorol gyda'r holl athrawon.<br>• Trefnu Hyfforddiant mewn Swydd gyda'r Partneriaethau Dysgu i ganolbwyntio ar yr elfen Cydweithredu.<br>• Hyfforddi ar sut i wella'r defnydd o SeeSaw.<br>• Creu llyfryn sy'n dangos ein taith tuag at 'Ein Cwricwlwm'. Adolygu y cynllunio tymor hir a'i osod mewn un ddogfen.<br>• Datblygu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau Entrepreneuriaeth a Lles wrth gyflawni prosiect o'u dewis. | **Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud…**<br>• Creu cyfrif ar gyfer pob dysgwr ar 'Winning with numbers' Bl1-6.<br>• Addasu amserlenni'r ystafell ddosbarth i sicrhau bod 'Winning with numbers' yn cael ei gwblhau yn ddyddiol.<br>• Cydlynydd rhifedd i atgyfnerthu dealltwriaeth staff addysgu o'r pum hyfedredd.<br>• Cydlynydd rhifedd i gwblhau archwiliad o adnoddau rhifedd ar draws yr ysgol.<br>• Paratoi a rhannu strategaethau datrys problemau rhifedd gyda CC2 a CC3 i'w harddangos yn yr ystafell ddosbarth.<br>• Paratoi a rhannu cardiau rôl grŵp ar gyfer gweithgareddau datrys problemau gyda PS3.<br>• Cam 2: Cynllun Gweithredu (Gweithgareddau a strategaethau i wneud i wella ddigwydd)<br>• Addysgu staff o CC2 a CC3 i gwrdd er mwyn sicrhau cysondeb wrth weithredu'r strategaethau datrys problemau.<br>• Teithiau Dysgu i arsylwi sesiynau 'Winning with numbers'.<br>• Monitro cynllunio a llyfrau athrawon i sicrhau bod y pum hyfedredd yn cael eu hymgorffori.<br>• Monitro sut mae dysgwyr yn defnyddio cyfleoedd pwrpasol i ddefnyddio sgiliau rhifedd ar draws y cwricwlwm.<br>• Ydyn nhw'n gallu esbonio pa adnoddau fyddai'n eu cefnogi i ddod o hyd i ateb? |
| **Yr hyn a welwn pan fyddwn wedi ei wneud…**<br>• Rhannu arferion addysgu a dysgu gorau ar draws yr ysgol ac ar draws y ffederasiwn anffurfiol.<br>• Sicrhau profiadau ysgrifennu trawsgwricwlaidd i ddisgyblion.<br>• Mae profiadau a disgwyliadau dysgu/ysgrifennu ar draws camau dilyniant yn cael eu mapio allan ar gynllun tymor canolig a hir.<br>• Defnyddir yr ardal allanol yn gyson i gyfoethogi'r dysgu.<br>• Sicrhau bod lefel yr her yn briodol i'r disgyblion ym mhob dosbarth drwy wahaniaethu pwrpasol.<br>• Mae cyfarfodydd cynnydd tymhorol yn cael eu cynnal. | **Yr hyn a welwn pan fyddwn wedi ei wneud…**<br>• Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd rheolaidd a phwrpasol i ddefnyddio sgiliau rhifedd ar draws y cwricwlwm.<br>• Bydd y rhan fwyaf o staff yn hyderus i ddefnyddio system strwythuredig 'Winning with numbers' i sicrhau bod dysgwyr yn caffael ar wybodaeth rhifau sylfaenol.<br>• Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth gadarn o wybodaeth rhifau sylfaenol ac yn datblygu rhuglder a hyder wrth ddefnyddio rhifau ('Ennill gyda Rhifau').<br>• Bydd dysgwyr yn defnyddio strwythur pendant ar gyfer datrys problemau ac yn deall y camau sydd angen eu cymryd. Maent yn dangos gwytnwch, dyfalbarhad a chreadigrwydd wrth fynd i'r |

<table>
<tr>
<td colspan="3">

- Mae gweithgareddau pwrpasol wedi'u cynllunio i'r dysgwyr gydweithio.
- Mae'r gweithgareddau a gynlluniwyd yn bodloni gofynion ac anghenion y rhan fwyaf o'r disgyblion yn llwyddiannus gyda'r gwahaniaethu yn bwrpasol yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau ac yn hynod effeithiol mewn tua hanner y dosbarthiadau.
- Mae'r disgyblion Dysgu Sylfaen hyn yn dewis yn rhydd yn y meysydd darpariaeth barhaus.
- Mae bron pob athro yn cynllunio 'heriau' thematig yn bwrpasol gyda dolen gyswllt clir yn rhedeg trwy'r holl weithgareddau dysgu. Bydd hyn yn cefnogi disgyblion i wneud cysylltiadau pwrpasol yn eu dysgu.

</td>
<td colspan="3">

afael â phroblemau a heriau. Yng Ngham Cynnydd 3, gall dysgwyr ymgymryd â rolau penodol a gwahanol mewn grŵp wrth ddatrys problemau.

- Bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatrys problemau yn seiliedig ar fywyd go iawn.
- Bydd cyfleoedd i ddysgwyr ymgymryd ag ymholiadau mathemategol sy'n dyfnhau eu dealltwriaeth o ddatrys problemau a rhesymu.
- Ym mhob dosbarth mae wal fathemateg i atgyfnerthu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant. Mae'r wal yn gyfredol i ddangos beth sy'n cael eu dysgu yn y gwersi mathemateg ar y pryd.
- Bydd gan y staff addysgu ddealltwriaeth gadarn o'r 5 hyfedredd mathemategol ac maent yn cynllunio gwersi o amgylch yr hyfedredd hyn.

</td>
</tr>
<tr>
<td colspan="3">Blaenoriaeth 3 : Parhau i wella dealltwriaeth y disgyblion hyn a sgiliau darllen trefn uwch yn y ddwy iaith a'u mwynhad o ddarllen.</td>
<td colspan="3">Blaenoriaeth 4 : Fel ffocws prosiect SSD, gwella'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion disgyblion sy'n agored i niwed drwy fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad dysgwyr.</td>
</tr>
<tr>
<td>Gweledigaeth ac arweinyddiaeth</td>
<td>Cwricwlwn, Dysgu ac Addysgu</td>
<td>Lles, Tegwch a Chynhwysiant</td>
<td>Gweledigaeth ac arweinyddiaeth</td>
<td>Cwricwlwn, Dysgu ac Addysgu</td>
<td>Lles, Tegwch a Chynhwysiant</td>
</tr>
<tr>
<td colspan="3">

**Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud…**

- Trefnu a datblygu llyfrgell yr ysgol.
- Trefnu llyfrau yn gategorïau a fyddai'n ymgysylltu ag amrywiaeth o ddysgwyr, yn enwedig bechgyn.
- Pob ystafell ddosbarth i ddatblygu mannau darllen sy'n ysbrydoli darllenwyr
- Cam 2: Cynllun Gweithredu (Gweithgareddau a strategaethau i wneud i wella ddigwydd)
- Parhau gyda'r gystadleuaeth ddarllen dosbarth i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd darllen yn gyson.
- Carwsél Darllen dyddiol i ddatblygu rhugldер a dealltwriaeth dysgwyr – Cymraeg am bythefnos a Saesneg yr wythnos ganlynol (2:1). Staff o'r Cyfnod Sylfaen i gefnogi staff Cyfnod Allweddol 2.
- Staff i gynllunio sesiynau carwsél yn bwrpasol ac yn effeithiol gan ddefnyddio gweithgareddau a ddarperir mewn adnoddau darllen dan arweiniad cyhoeddedig.
- SMT i gynnal teithiau dysgu rheolaidd o'r sesiwn ddarllen, mentora staff ar sut i wella'r gweithgareddau a thynnu sylw at weithgareddau effeithiol ymhlith athrawon.
- Cydlynydd llythrennedd i gasglu cynlluniau'r carwsél darllen yr wythnos cyn iddynt gael eu gweithredu, er mwyn sicrhau bod sesiynau wedi'u cynllunio'n effeithiol.
- Sesiynau darllen ar y cyd fel dosbarth cyfan yn ogystal â gwella sgiliau darllen a mwynhau testunau e.e., llyfrau dosbarth cyfan ac ati.
- Monitro effeithiolrwydd y cynllun gwaith darllen.
- Asesu sgiliau darllen dysgwyr o flwyddyn 2 i 6 gan ddefnyddio profion mewnol yn Gymraeg.
- Parhau i ddefnyddio Darllen Co. ac Oxford Reading Buddy ar gyfer darllen gartref. Annog y disgyblion i ateb cwestiynau am y testun er mwyn datblygu eu sgiliau darllen a deall ymhellach.

</td>
<td colspan="3">

**Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud…**

- Hyfforddiant HMS- Model ymchwil effeithiol.
- Athrawon i gael amser i ymchwilio a chreu cynllun gweithredu.
- Cam 2: Cynllun Gweithredu (Gweithgareddau a strategaethau i wneud i wella ddigwydd)
- Athrawon i dreialu gyda'r ystafell ddosbarth / casglu tystiolaeth / gwerthuso
- Rhannu canfyddiadau / arfer dda gyda staff
- Staff i dreialu yn eu hystafelloedd dosbarth ac adborth

</td>
</tr>
</table>

| Beth fyddwn ni'n ei weld pan fyddwn ni wedi'i wneud... | Yr hyn a welwn pan fyddwn wedi ei wneud… |
| --- | --- |
| • Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gwelliannau yn eu sgoriau safonol yn y profion Darllen Cenedlaethol Cymraeg/Saesneg.<br>• Mae gan lawer o ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at ddarllen yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br>• Mae gan lawer o ddisgyblion Blynyddoedd 5 a 6 yr un brwdfrydedd a mwynhad dros ddarllen Cymraeg a Saesneg.<br>• Pan fydd pob tasg wedi'i chynllunio'n ofalus i wella sgiliau darllen disgyblion a'u datblygu ymhellach.<br>• Mae rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos cynnydd.<br>• Pan fydd darllen dan arweiniad yn ennyn brwdfrydedd bron pob dysgwr ac yn cael eu cynllunio'n gadarn.<br>• Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd yn eu sgiliau darllen gan gynnwys:<br>• Gall llawer ysgrifennu, sganio, ail-eirio, rhagfynegi, byrhau a gwerthuso'n gadarn erbyn diwedd blwyddyn 6.<br>• Erbyn diwedd blwyddyn 6 bydd gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o nodweddion testun ffeithiol.<br>• Erbyn diwedd blwyddyn 4 bydd llawer o ddisgyblion yn datblygu eu sgiliau cwestiynu o'r hyn maen nhw'n ei ddarllen ac yn gwahaniaethu rhwng y prif gymeriadau a chymeriadau eraill.<br>• Mae llawer o ddisgyblion yn dangos mwy o rhuglder wrth ddarllen yn Gymraeg oherwydd gwell dealltwriaeth o eirfa.<br>• Mae ffoneg yn gadarn ym mlwyddyn 3 ac mae ymyrraeth ar waith ar gyfer y rhai sydd angen cymorth.<br>• Pan fydd rhieni'n sylwi ar agwedd gadarnhaol wrth ddarllen pan fydd eu plant gartref.<br>• Pan fydd strategaethau cwestiynu'r holl staff wedi gwella.<br>• Pan fydd staff yn cynllunio sesiynau carwsél darllen yn fwy pwrpasol ac effeithiol gan ddefnyddio gweithgareddau a ddarperir mewn adnoddau darllen dan arweiniad cyhoeddedig.<br>• Pan fydd y cydlynydd llythrennedd yn casglu'r cynlluniau carwsél darllen yn yr wythnos cyn iddynt gael eu gweithredu, er mwyn sicrhau bod sesiynau wedi'u cynllunio'n effeithiol, ac i gynnig awgrymiadau o adnoddau a gweithgareddau.<br>• Pan fydd UDRh wedi cynnal teithiau dysgu rheolaidd o'r sesiwn ddarllen, mentora staff ar sut i wella'r gweithgareddau a thynnu sylw at weithgareddau effeithiol ymhlith athrawon.<br>• Pan fydd staff ysgolion wedi cydweithio i ddatblygu banc o arfer dda y gellir ei weithredu'n wythnosol.<br>• Pan fydd y staff yn cymryd sesiynau darllen ar y cyd gyda'r dosbarth cyfan yn ogystal â gwella sgiliau darllen a mwynhau testunau e.e., llyfrau dosbarth cyfan ac ati.<br>• Pan fydd llawer o ddisgyblion yn dangos bod uwch sgiliau darllen wedi cael eu cryfhau ymhellach. | • Mae staff wedi cael eu hyfforddi i ddatblygu'r ysgol fel sefydliad dysgu.<br>• Mae strategaethau wedi'u datblygu ac mae dysgwyr yn gwneud cynnydd<br>• Pan fydd data profion yn dangos mwy o gynnydd yn y sgoriau safonedig cyfartalog ar gyfer pob prawf.<br>• Pan fydd staff wedi gwerthuso ac adrodd yn ôl i'r ysgol gyfan.<br>• Profwyd yr effaith ar ddysgwyr. |

| **Blaenoriaeth 5 : Cryfhau yn bellach y cynnydd cadarn diweddar o ran lefelau presenoldeb yr ysgol.** | | |
|---|---|---|
| Gweledigaeth ac arweinyddiaeth | Cwricwlwm, Dysgu ac Addysgu | Lles, Tegwch a Chynhwysiant |

**Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud ...**

- Sicrhau bod pwysigrwydd presenoldeb da a phrydlondeb yn cael ei rannu gyda'r holl rieni yn ystod noson gychwynnol rhieni ym mis Medi.
- Bydd y broses o adrodd am absenoldeb hefyd yn cael ei atgyfnerthu.
- Cam 2: Cynllun Gweithredu (Gweithgareddau a strategaethau i wneud i wella ddigwydd)
- Parhau â'r prosesau cadarn iawn sydd gennym ar waith, gan gynnwys:
- Herio rhieni sy'n hwyr.
- Tynnu sylw at bwysigrwydd mynychu nosweithiau rhieni, gwasanaethau, llythyrau ac ati
- Gwobrau Presenoldeb
- Monitro presenoldeb pob hanner tymor.
- Llythyrau rhybuddio – dim gwelliant mewn 10 diwrnod – cyfarfod cymorth HT / DHT
- Cyfeirio at Swyddog Lles Addysg.
- Cyfarfod Cymorth gyda SLlA
- Rhybudd Terfynol.
- Monitro presenoldeb ysgol gyfan
- Llythyrau i hysbysu rhieni am bresenoldeb disgyblion
- Gwahoddiad i gwrdd â HT / DHT
- Llythyrau rhybuddio
- Cyfeirio at SLlA

**Yr hyn a welwn pan fyddwn wedi ei wneud...**

- Mae'r gwelliant presenoldeb a welwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn cael ei gynnal neu ei wella ymhellach.
- Mae'r gwahaniaeth mewn presenoldeb grwpiau bregus o ddisgyblion yn parhau i beidio â bod yn destun pryder.

**Adran 3 : Adroddiad ar gynnydd/effaith yn erbyn blaenoriaethau’r flwyddyn flaenorol (2022-2023)**

| Priority | Impact<br>Did we meet our targets? What was the impact? If not fully met, explain why. |
|---|---|
| Blaenoriaeth 1 **Gwella sgiliau llafaredd Cymraeg ein dysgwyr a chodi statws a pharch tuag at yr iaith.** | Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol wrth ddatblygu eu sgiliau sylfaenol. Mae'r mwyafrif yn siarad Cymraeg yn briodol gyda staff, fodd bynnag Saesneg sy’n cael ei ddefnyddio wrth gyfathrebu ar lafar. Mae sgiliau llafar disgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu'n effeithiol ac erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn dechrau sgwrsio'n hyderus yn y Gymraeg am eu gwaith a'u profiadau.<br><br>Mae sesiynau cyson 'Cynllun Clonc' yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gyfathrebu'n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 3.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn dweud bod y sesiynau ymarfer iaith (Cynllun Clonc) yn helpu i wella eu Cymraeg, ond nid yw staff bob amser yn cywiro gwallau iaith sylfaenol y tu hwnt i'r gwersi iaith.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion blynyddoedd 2 i 6 yn dangos parch wrth sgwrsio gyda’u gilydd ac yn sgwrsio’n fwy hyderus gydag oedolion wrth drafod eu gwaith a'u dysgu.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cynnydd da yn eu sgiliau llafar.<br><br>**<u>Targedau:</u>**<br><br>▪ Parhau gyda sesiynau 'Cynllun Clonc' dyddiol. |
| **<u>Blaenoriaeth 2:</u> Datblygu dealltwriaeth ein dysgwyr o bwysigrwydd data a gwybodaeth llythrennedd a sut mae hyn yn cysylltu â'n byd digidol.** | Mae bron pob dysgwr yn cael cyfleoedd cyson i ddatblygu meddwl cyfrifiadurol ar draws y cwricwlwm.<br><br>Mae negeseuon Diogelwch Ar-lein wedi'u hymgorffori ar draws pob dosbarth ac fe'u cymhwysir y tu allan i'r gwersi.<br><br>Mae mwyafrif y disgyblion yn hyderus wrth weithio gydag eraill e.e. gweithio ar y cyd i gynhyrchu cyflwyniad PowerPoint grŵp a rhannu trwy Office 365 neu Google Slides.<br><br>Erbyn blwyddyn 4, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gallu didoli gwrthrychau gan ddefnyddio meddalwedd priodol, er enghraifft, siapiau yn J2Branch / cronfeydd data canghennog gan ddefnyddio cwestiynau priodol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi datblygu dealltwriaeth briodol o drin data drwy ddefnyddio cronfeydd data e.e. J2Data erbyn blwyddyn 6. |

| | |
|---|---|
| | Mae bron pob dysgwr wedi cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau meddwl cyfrifiadurol trwy weithgareddau all-lein ac ar-lein e.e. cyfrifiadura barefoot, microbitau a chodio caledwedd ac o ganlyniad mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth drosglwyddo'r sgiliau hyn mewn gweithgareddau bob dydd.<br><br>Mae yna dystiolaeth gyson o waith codio dysgwyr, gan gynnwys gwaith a ddatblygwyd y tu allan i Hwb e.e. ystafell ddosbarth Makecode.<br><br>Mae arweinwyr digidol (disgyblion) yn uwchsgilio ac yn helpu dysgwyr / athrawon eraill yn yr ysgol.<br><br>Mae gan bron pob aelod staff gwell dealltwriaeth o'r ystod yn y FfCD sy'n briodol i oedran a gallu'r dysgwyr.<br><br>**Targedau:**<br><br>• Dysgwyr i ddefnyddio heriau cymhleth wrth ddefnyddio taenlenni, er enghraifft, ym mlynyddoedd 3 a 4 yn gallu defnyddio taenlenni ar gyfer cyfrifiadau rhifyddeg a syml tra ym mlynyddoedd 5 a 6, bydd disgyblion yn gallu gwneud defnydd effeithiol o excel gyda swyddogaethau mwy cymhleth. |
| **Blaenoriaeth 3: Gwella sgiliau darllen a deall disgyblion a datblygu sgiliau darllen trefn uwch yn y Gymraeg.** | Yn ystod y daith ddysgu, roedd pob dosbarth wedi cynllunio carwsél darllen, ac roedd llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n bwrpasol â'r tasgau. Fodd bynnag, nid oedd llawer o'r tasgau a gynlluniwyd yn gwella sgiliau darllen y disgyblion yn ddigon pwrpasol. Roedd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau naill ai'n dasgau darllen a deall neu'n ddarlleniad unigol, lle'r oedd disgyblion yn defnyddio sgiliau darllen blaenorol ond ddim yn cael eu herio i ddatblygu eu sgiliau ymhellach. Roedd gan y rhan fwyaf amrywiaeth dda o strategaethau i ddod o hyd i ystyr geiriau newydd a heriol.<br><br>Mae rhuglder llawer o ddisgyblion yn datblygu ond gellid gwella cyflymder y cynnydd ymhellach.<br><br>Mewn llawer o ddosbarthiadau a arsylwyd, nid oedd staff yn defnyddio strategaethau darllen dan arweiniad yn bwrpasol ac yn effeithiol i wella sgiliau.<br><br>Ni chafodd y sesiynau eu cynllunio'n gadarn, ac nid oedd y gweithgareddau'n ennyn brwdfrydedd disgyblion yn darllen yn ddigon da.<br><br>Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n annibynnol ar dasgau darllen a deall a chwblhau atebion mewn llyfrau. Roedd ysgrifennu atebion ar gyfer cwestiynau darllen a deall yn arafu y cyflymder dysgu ac yn atal disgyblion rhag datblygu uwch sgiliau darllen a dealltwriaeth dyfnach o'r testunau. . Mae'r uwch dîm rheoli wedi adolygu data profion safonol a bu cynnydd cyfyngedig. Mae data'n awgrymu bod safonau'n parhau i fod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.<br><br>Mae'r cydlynydd llythrennedd wedi sicrhau bod yr holl staff wedi derbyn ffeil gydag enghreifftiau o weithgareddau darllen i gefnogi sgiliau darllen y disgyblion. Mae'r uwch dîm rheoli wedi prynu deunyddiau darllen i gefnogi sesiynau ac wedi |

| | |
|---|---|
| | sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r disgwyliadau i gynnal carwsél darllen dyddiol. Mae'r cydlynydd wedi darparu adnoddau sgiliau darllen o ansawdd da i staff i gefnogi eu gwaith o gynllunio sesiynau darllen. Mae hyn wedi rhoi cronfa o gwestiynau gwahaniaethol i'w defnyddio.<br><br>**Targedau:**<br><br>Mae angen i lawer o staff ddatblygu'r defnydd o gwestiynau effeithiol i archwilio trafodaethau testunau o fewn grwpiau darllen dan arweiniad. |
| **<u>Blaenoriaeth 4</u>: Sicrhau lefel gyson o her ac adnoddau pendant a gweledol i ddatblygu sgiliau cysyniadol a rhesymu dysgwyr ymhellach.** | Ar draws yr ysgol, darperir ystod gyfoethog, ymarferol, dilys a gafaelgar o gyfleoedd dysgu.<br><br>Yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion gofio dysgu blaenorol a'i gymhwyso'n annibynnol mewn tasgau a osodir ar y lefel briodol ar gyfer eu galluoedd.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen yn dangos gwytnwch wrth gymhwyso sgiliau rhifedd ac yn dangos lefel uchel o fwynhad.<br><br>Mae'r amgylcheddau ym mhob dosbarth o'r cyfnod sylfaen wedi'u datblygu'n dda i ysbrydoli disgyblion sy'n chwilfrydig.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o staff yn y dysgu sylfaen yn cwestiynu'r disgyblion yn dda.<br><br>Gall disgyblion ddefnyddio adnoddau amrywiol yn effeithiol i ddatrys y problemau mathemategol a achosir iddynt, ar draws y cwricwlwm.<br><br>Gwnaeth disgyblion cam 1 gynnydd da yn eu sgiliau annatod ac maent yn dangos lefel uchel o sgiliau creadigrwydd, trefnu a datrys problemau.<br><br>Mae perthnasoedd yn y dosbarthiadau hyn yn gadarnhaol iawn ac mae staff yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol iawn, gan ddangos gwybodaeth dda o'r dysgwyr.<br><br>Mae cynnydd sgiliau rhifedd disgyblion cam 1 yn gryf ac yn adlewyrchu'r fframwaith rhifedd yn dda.<br><br>Mae lefel yr her a chynnydd sgiliau rhifedd disgyblion yn y dosbarthiadau hŷn yn dal i fod yn dda.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o staff yn holi disgyblion yn dda yn y dosbarthiadau hŷn. Fodd bynnag, gyda lleiafrif o staff, defnyddiwyd cwestiynau caeëdig ac nid oeddent yn annog sgiliau datrys problemau disgyblion.<br><br>Dangosodd y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol lefel uchel o wytnwch wrth gwblhau tasgau rhifedd ac roedd ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn. |

| | |
|---|---|
| | Gallai llawer o ddisgyblion esbonio sut yr oeddent wedi cyrraedd ateb i gwestiwn. Fodd bynnag, wrth gael eu herio i brofi eu hatebion neu ddangos ffordd wahanol o gyrraedd yr atebion, nid oedd llawer o ddisgyblion yn hyderus.<br><br>Nid oeddent yn gwybod sut i ddefnyddio lluniau nac adnoddau i gyfiawnhau eu hatebion. |
| **<u>Blaenoriaeth 5</u>: Datblygu cwricwlwm gwirioneddol o ddysgu seiliedig ar ymchwiliad ymhellach er mwyn sicrhau'r cynnydd gorau posibl yn ein dysgwyr.** | Mae dysgu seiliedig ar ymchwiliad wedi'i dreialu ym mhob dosbarth a'i fwydo yn ôl i'r ysgol - gan ddatblygu'r ysgol fel sefydliad dysgu.<br><br>Mae'r dull sy'n seiliedig ar ymchwiliad yn cael ei dreialu a'i ddatblygu ar draws yr ysgol.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau gwersi yn dangos y strategaethau dysgu sy'n seiliedig ar ymholiad.<br><br>Gall y rhan fwyaf o ddysgwyr esbonio'r ffordd y maent wedi dysgu / dilyn y dull sy'n seiliedig ar ymchwiliad.<br><br>Gall bron pob arweinydd MDaPH brofi sgiliau dysgwyr.<br><br>Mae'r ysgol wedi mapio ein cwricwlwm ar y dull ymholiad dysgu.<br><br>Mae dull dysgu ymchwiliol i'w weld mewn portffolios/ see-saw / llyfrau gwaith disgyblion<br><br>Mae amgylcheddau dysgu yn yr ystafell ddosbarth yn cynnig dewis eang o adnoddau i annog dysgu ymchwiliol.<br><br>**<u>Targedau:</u>**<br><br>Disgyblion yn hyderus wrth ymchwilio a chyflwyno gwybodaeth yn annibynnol.<br><br>Disgyblion i fod yn feddylwyr beirniadol. |